# Rhaghysbysebion a phosteri ffilmiau
## Diwedd yr uned – gwirio dysgu

### Gwyliwch raghysbyseb ffilm mae eich athro'n ei dangos.

- Enwch ddwy nodwedd sy'n nodweddiadol mewn rhaghysbysebion. Eglurwch sut maen nhw wedi cael eu defnyddio.
- Sut mae eiconograffeg wedi cael ei defnyddio i sefydlu genre'r ffilm?
- Sut mae sain yn cael ei defnyddio?
- Sut mae cymeriadau gwrywaidd a/neu fenywaidd yn cael eu cynrychioli yn y rhaghysbyseb? Ydyn nhw'n cael eu cyflwyno mewn ffordd nodweddiadol? Ydyn nhw mewn rolau nodweddiadol neu ydyn nhw mewn rolau sy'n herio cynrychioliadau traddodiadol?
- A ddefnyddiwyd sêr fel dyfais farchnata? Sut byddai'r sêr/actorion yn apelio at gynulleidfaoedd?
- Sut mae'r codau naratif wedi cael eu defnyddio yn y rhaghysbyseb? Oes yna strwythur clir? A ddefnyddiwyd codau enigma? Ydy'r naratif yn ymddangos yn nodweddiadol i'r genre neu'n wahanol?
- Enwch ddau leoliad penodol sydd wedi'u cynrychioli yn y rhaghysbyseb. Pa mor bwysig yw'r lleoliadau i'r ffilm sy'n cael ei hyrwyddo?
- Enwch ddwy nodwedd berswadiol. Sut bydden nhw'n apelio at gynulleidfaoedd?
- Ydy'r rhaghysbyseb yn awgrymu USP (*unique selling point*: pwynt gwerthu unigryw) ar gyfer y ffilm? Beth yw'r USP yn eich barn chi?
- Pa mor nodweddiadol yw'r rhaghysbyseb o'i chymharu â rhaghysbysebion ffilm eraill? Beth yw'r nodweddion nodweddiadol neu annodweddiadol?
- Awgrymwch gynulleidfa darged i'r ffilm. Eglurwch eich dewis.
- Oes gan y ffilm werthoedd cynhyrchu uchel? [cyllideb fawr] Pa mor bwysig yw hyn i apêl y ffilm i gynulleidfaoedd?

© CBAC | WJEC